# Gofynion adnabod a chyfnewid tagiau sydd wedi'u colli a rhai sy'n annarllenadwy

**Mae 2 opsiwn tagio:**

<table>
<tr><td>1. EID Llawn<br><br></td><td>Yn dangos y cod gwlad 'UK' a rhif 6 digid y ddiadell (gyda zero o'i flaen) + rhif pum digid yr anifail.<br><br>Mae'r sglodyn electronig yn y tag melyn.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gallwch ddefnyddio'r EID gyda:<ul><li>Ŵyn y bwriedir eu lladd mewn lladd-dy yn y Deyrnas Unedig cyn iddynt gyrraedd eu 12 mis oed</li><li>Ŵyn sy'n cael eu cadw ar ôl eu 12 mis oed i fagu.</li><li>Ŵyn gwryw stôr/tew y bwriedir eu lladd ar ôl eu 12 mis.</li><li>Ŵyn y bwriedir eu hallforio'n fyw.</li></ul></td></tr>
<tr><td>2. Tag Lladd Electronig<br><br></td><td>Yn dangos y cod gwlad 'UK' a rhif diadell y fferm lle cafodd y tag ei osod<br><br>Mae'r sglodyn electronig yn y tag melyn.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gallwch ddefnyddio'r tag lladd electronig gyda:<ul><li>Ŵyn y bwriedir eu lladd mewn lladd-dy yn y Deyrnas Unedig cyn iddynt gyrraedd eu 12 mis oed</li></ul></td></tr>
</table>

Mae amrywiaeth o wahanol ddyfeisiau adnabod swyddogol wedi'u cymeradwyo ichi eu defnyddio e.e. tagiau dolen, tagiau botwm, tagiau baner a bandiau bigwrn. Mae bandiau bigwrn (GB), bolws a thatŵs hefyd yn ddyfeisiau adnabod swyddogol (mewn cyfuniadau penodol).

## Math o dag gyfnewid

| | **Ar ei ddaliad geni** | **Ddim ar ei ddaliad geni** |
|---|---|---|
| **EID Llawn (defaid wedi'u tagio o 2010 ymlaen)** | **Naill ai:**<br>Rhowch dag newydd tebyg i'r tag a gollwyd (yr un rhif unigol), p'un a yw ar ei ddaliad geni neu beidio<br>**Neu:**<br>Tynnwch y tag sydd ar ôl a gosod pâr newydd o dagiau EID Llawn a nodi'r manylion newydd ar gofnod y ddiadell | Tynnwch y tag sydd ar ôl a gosod pâr newydd o dagiau EID Llawn COCH a nodi'r manylion newydd ar gofnod y ddiadell |
| | | |
| **Tag Lladd EID** | Rhowch dag lladd batsh arall o'ch stoc o dagiau, gyda'r un rhif diadell. | Rhowch dag lladd electronig coch yn ei le, gyda'r un rhif diadell. Nodwch y manylion ar gofnod y ddiadell. |
| | | |

I weld y rheolau ar roi tagiau cyfnewid ar ddefaid hŷn h.y. y rheini gafodd eu tagio cyn 2010 – darllenwch dudalen 13 *Canllaw i Geidwaid – Rheolau adnabod defaid a geifr* - [http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/farmanimaltracing/sheepandgoatidentification/rules-for-identifying-sheep-and-goats/?skip=1&lang=cy](http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/farmanimaltracing/sheepandgoatidentification/rules-for-identifying-sheep-and-goats/?skip=1&lang=cy)

## Lliw y tag

Mae tagiau *swyddogol* yn gorfod bod yn felyn, coch neu ddu, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Bydd tagiau electronig yn felyn | **ELECTRONIG** |
| Tag cyfateb yn ddu pan roddir bolws | **BOLWS** |
| Pob tag cyfnewid, gan gynnwys EID, yn goch (heblaw'r rheini a roddir ar y daliad geni) | **CYFNEWID** |

*(Dyma'r rheolau yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'r Alban wedi neillltuo lliw ar gyfer eu tagiau EID – maen nhw felly'n cael bod unrhyw liw heblaw coch a du, er bod ffermwyr yr Alban wedi'u cynghori i ddefnyddio tagiau melyn os ydyn nhw'n gwerthu defaid dros y ffin).*

Os ydy'r anifail wedi'i dagio â thag a dyfais arall neu â thag rheoli'r ceidwad ei hun, gall y tag cyfateb confensiynol fod o unrhyw liw arall (neu liwiau eraill e.e. gall lliwiau gwahanol ar dagiau deuran).

**<u>Pob oen, gan gynnwys ŵyn anwes, sy'n cael eu cadw ar ôl 12 mis oed</u>**
Bydd ŵyn stôr a thew y bwriedir eu lladd ond sy'n cael eu cadw dros 12 mis oed, defaid sy'n cael eu cadw ar gyfer eu cig a defaid anwes yn gorfod cael eu hadnabod yn electronig (â'r **ddyfais adnabod lawn - EID**) a'u cofnodi'n unigol yng nghofnod y ddiadell.

**<u>Allforion byw</u>**
Bydd ŵyn sy'n cael eu geni ar neu ar ôl 31 Rhagfyr 2009 ac a fydd yn cael eu hallforio'n fyw yn gorfod cael eu hadnabod yn electronig (â'r **ddyfais adnabod lawn - EID**) a'u cofnodi'n unigol yng nghofnod y ddiadell. Ni fydd defaid â thagiau cyfnewid coch yn gallu cael eu hallforio i wledydd eraill yn yr UE.